



yn rhoi
cartref i
fyd natur

ARWEINIAD CRYNO

Tirwedd y Dyfodol

CYMRU





Tirwedd y Dyfodol:

achub byd natur gyda phartneriaid ledled Cymru

Er gwaethaf llwyddiannau y bu'n rhaid brwydro amdanynt yn y gorffennol, mae'n ffaith nad yw'r raddfa bresennol o ymdrech gadwraethol yn ddigonol. Mae rhywogaethau'n dal i brinhau a chynefin yn cael ei golli, a bydd angen hyd yn oed mwy o ymdrechion cadwraethol ar fywyd gwyllt er mwyn ateb sawl her yn y dyfodol. I sicrhau cadwraeth natur, mae angen i ni ychwanegu at warchod gwarchodfeydd a mannau gwarchoddedig. Mae angen i ni edrych ar y cefn gwlad ehangach, ac adfer ac ail-greu tirweddau bywiog lle bydd adar a bywyd gwyllt arall yn ffynnu.

Meddwl ar raddfa fawr dros fyd natur

Rydym wedi dewis yr enw Tirwedd y Dyfodol ar gyfer ein rhaglen o fentrau cadwraeth ar raddfa'r dirwedd ledled y DU. Credwn fod modd adeiladu ar ein cryfderau, mewn partneriaeth gydag eraill, i sicrhau newid sylfaenol mewn rheolaeth gynaliadwy o'n gefn gwlad. Rydym eisoes wedi adnabod ein Tirweddau cyntaf i'r Dyfodol ac ar y lleoliadau yma rydym yn rhoi ystod eang o weithgareddau cadwraeth ar waith wrth gydweithio gyda phartneriaid a hybu'r dull o weithredu ar raddfa'r dirwedd gyda rhanddalwyr – gan geisio sicrhau'r effaith gyfunol fwyaf dros fyd natur.

Mae angen i gadwraeth natur ystyried deunyddiau tir eraill, yn cynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth a thai, ac mae angen i ni ddysgu sut i wneud y defnydd gorau o'n tir i wireddu amcanion lluosog ar yr un pryd. Rhaid i gadwraeth ar raddfa'r dirwedd hefyd ystyried llif y gwasanaethau "rhad ac am ddim" hynny yr ydym yn eu derbyn gan fyd natur ac wrth wneud hynny sicrhau bod mwy o bobl yn elwa o wireddu portffolio o nwyddau a gwasanaethau o'r tir. Mae angen cymysgedd gytbwys o fyd natur, bwyd, dŵr a gwasanaethau ecosystem eraill.

Gweithredu gan y llywodraeth nawr

Hyd yma, mae cadwraeth ar raddfa'r dirwedd wedi ei chyfyngu gan ddiffyg ariannu a diffyg cefnogaeth ymysg gwneuthurwyr polisi. Rhaid i lywodraethau gydnabod bod eu methiant i ddod â cholledion mewn bioamrywiaeth i ben erbyn 2010 yn rhybudd amlwg na ellir ei anwybyddu, a bod gwir angen ein cymorth ar fyd natur i addasu i her newid hinsawdd. Mae angen cefnogaeth unedig y llywodraeth ar gadwraeth ar raddfa'r dirwedd i sicrhau ei llwyddiant: cefnogaeth sy'n cydnabod cyfraniad enfawr byd natur i economi a lles y DU, ac sy'n darparu yn ei thro lefel priodol o ariannu, sy'n uwch na'r hyn sydd eisoes wedi ei glustnodi ar gyfer gwarchod rhywogaethau a safleoedd.

Yn benodol, mae RSPB Cymru'n galw ar Lywodraeth Cymru i:

- ▶ Gydnabod pwysigrwydd y dull o weithredu ar raddfa'r dirwedd i gadwraeth natur, i gyfannu manau gwarchoddedig, targedu rhywogaethau cadwraeth a chefnogi bywoliaethau gwledig.
- ▶ Gydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru, ac arwain gyda bwrw ymlaen â'r dull o weithredu ar raddfa'r dirwedd.
- ▶ Weithio mewn partneriaeth i sefydlu mentrau peilot ar raddfa'r dirwedd sy'n arddangos y dull o weithredu yn ôl yr ecosystem.
- ▶ Sicrhau bod tystiolaeth, polisi a fframweithiau cynllunio mewn grym i hyrwyddo cadwraeth ar raddfa'r dirwedd.
- ▶ Gyflwyno mecanweithiau mentrus ar gyfer ariannu cadwraeth ar raddfa'r dirwedd ac addasu llwybrau ariannu sy'n bodoli eisoes i weithio mwy dros fywyd gwyllt.
- ▶ Sicrhau na fydd gwariant cyhoeddus yn effeithio mewn ffordd negyddol ar yr amgylchedd naturiol.

Cydweithio – dros fyd natur ac ar ran pobl

Mae rhaglen Tirwedd y Dyfodol yn cynrychioli ymrwymiad RSPB Cymru i weithio dros gadwraeth ar raddfa na welwyd erioed o'r blaen. Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hun – ac ni fu ein partneriaethau, hen a newydd, erioed yn bwysicach. Mae cydweithio gyda chyrrff amgylcheddol cyffelyb, cymunedau lleol, busnesau a chyrrff llywodraethol yn hanfodol er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon dros gefn gwlad sy'n cynnal cynefinoedd ac amrywiol fannau gwyrdd – nid ar gyfer bywyd gwyllt yn unig, ond ar gyfer pobl hefyd.

Mae gan RSPB Cymru dros ganrif o brofiad o gynorthwyo gyda gosod byd natur wrth wraidd gwneud penderfyniadau. Mae ein rhaglen Tirwedd y Dyfodol yn gosod her i ni adeiladu ar ein profiad a rhoi'r gwersi yr ydym wedi eu dysgu o'n projectau mwyaf llwyddiannus a hirdymor ar waith yn gyson.

Lluniwyd y tirweddau yr ydym wedi eu hadnabod o fewn rhaglen Tirwedd y Dyfodol gan eu hanes ac maent wrth wraidd eu cymunedau. Dim ond wrth gydweithio ac arddangos parch y naill i'r llall allwn ni lwyddo i wireddu ein gweledigaeth ar y cyd.



Dewch i gydweithio i
adeiladu cartrefi i fyd natur
ledled Cymru,
ewch i **rspb.org.uk/futurescapes**
am fwy o wybodaeth.

Cysylltwch

Pencadlys Cymru

Tŷ Sutherland,
Pontycastell,
Heol Ddwyreiniol y
Bont-faen,
Caerdydd CF11 9AB
Ffôn: 029 2035 3000

Swyddfa Gogledd Cymru

Uned 14, Llys Castan,
Parc Menai, Bangor,
Gwynedd LL57 4FD
Ffôn: 01248 672850

Gweledigaeth yr RSPB dros gadwraeth ar raddfa'r dirwedd ledled y DU yw Tirwedd y Dyfodol

Cefnogir Tirwedd y Dyfodol yn hael gan Raglen Gyfathrebu Life+ yr UE

Mae'r RSPB yn rhan o BirdLife International, partneriaeth o gyrrff cadwraeth sy'n gweithio i roi cartref i fyd natur ledled y byd



yn rhoi
cartref i
fyd natur

